
# Cyswllt – Canllaw Cyflym

## 1. Gosod cyfrif cychwynnol

Bydd cyfrif defnyddiwr a manylion gosod Cyswllt yn cael eu rhoi i Swyddog Arholiadau eich canolfan fel Uwch Ddefnyddiwr y ganolfan. Dyma pwy fydd yn gyfrifol am osod cyfrifon ar gyfer defnyddwyr ychwanegol ac uwch ddefnyddwyr.

Unwaith y bydd cyfrif wedi'i osod ar eich cyfer yn Cyswllt, byddwch yn derbyn neges e-bost i'ch croesawu a fydd yn cynnwys cyswllt at Cyswllt, eich enw defnyddiwr a chyfrinair dros dro. Ar ôl derbyn yr e-bost hwn, cliciwch ar y cyswllt a theipiwch y cyfrinair dros dro i mewn i'r system.


From: Creatio <system@creatio.org.uk> Sent: Sat 05/11/2016 10:33
To: Harris, Sarah
Cc:
Subject: Your account has been created by WJEC

An account has been created for you by WJEC.

Please sign in at https://protect-eu.mimecast.com/s/DJ0gBseeARfW using the following details.

Username: Sarah.Harris@wjec.co.uk
Password: 3Ys733zV3TLp


Don't worry, you will be prompted to change your password to something more memorable.

--------------------------------------------
This is an automatically generated email, please do not reply

Powered by Creatio Ltd

Cyngor ac awgrymiadau: Mae'r system yn sensitif i lythrennau bach/mawr a bylchau felly gall copïo a gludo'r cyfrinair dros dro i mewn i'r blwch cyfrinair ar y system fod yn ddefnyddiol.

Cyn cael mynediad bydd gofyn i chi newid y cyfrinair i rywbeth mwy cofiadwy.





Cyngor ac awgrymiadau: Argymhellir hefyd eich bod yn cadw'r wefan yn y bar ffefrynnau ar eich system fel bod gennych fynediad hawdd ati.

## Eich Mewnflwch


Bob tro y byddwch yn mewngofnodi i'r system, byddwch yn mynd yn syth i'r dudalen hafan sy'n dangos eich mewnflwch personol. Mae hwn yn dangos pob 'ffurflen' rydych wedi'i chreu ac/neu sydd wedi'i ‘haseinio’ i chi gan gydweithiwr, ac sy'n weithredol ac o fewn rheolaeth eich canolfan (h.y. nid â CBAC). Mae mwy o fanylion ynghylch ffurflenni i'w cael yn Adran 5.

Noder, efallai fod gan rai defnyddwyr fynediad at fewnflwch cyffredinol eich canolfan yn dibynnu ar eu hawliau mynediad.

Ar ochr dde eich mewnflwch gallwch weld rhestr o ffurflenni y gallech fod angen eu defnyddio. O dan y rhestr hon mae rhestr o ddogfennau allweddol mae CBAC wedi'u llwytho i fyny ar gyfer eich canolfan.





Wrth ochr eich mewnflwch gallwch hefyd weld 'Camau Gweithredu'. Os yw CBAC wedi aseinio unrhyw gamau gweithredu i'ch canolfan eu cwblhau, byddant i'w gweld yma.



## Rheoli eich proffil


I weld yr hawliau mynediad sydd wedi'u gosod ar eich cyfer chi, cliciwch ar 'Fy manylion' ar frig y sgrin.

O'r sgrin hon gallwch gadw eich manylion cyswllt eich hun, ailosod eich cyfrinair ac adolygu'r 'rolau' sydd wedi'u haseinio i chi.




Y ‘rolau’ hyn sy'n pennu pa ‘ffurflenni’ y mae gennych fynediad atynt a lefel y mynediad y mae gennych atynt (e.e. y gallu i olygu, cau, ac ati). Dim ond Uwch Ddefnyddwyr sy'n gallu diwygio hawliau mynediad ffurflen ar eu cyfer nhw eu hunain ac ar gyfer Defnyddwyr.

O'r sgrin hon gallwch hefyd ddewis pryd rydych eisiau derbyn hysbysiadau gan y system.



## 2. Rheoli proffil y ganolfan

Ar y sgrin 'Fy nghanolfan' gallwch weld manylion cyswllt eich canolfan, prif gysylltiadau'r ganolfan, cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w cynnig gan eich canolfan, yn ogystal â gwybodaeth o ran statws risg a chydymffurfio cyfredol eich canolfan. Gall uwch ddefnyddwyr ac uwch reolwyr hefyd weld gwybodaeth o ran defnydd a ffioedd sydd wedi cronni.




Manylion y Ganolfan: mae'r sgrin hon yn rhoi trosolwg o fanylion cyfredol eich canolfan.

Cymwysterau: mae'r sgrin hon yn eich galluogi i weld y cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w cynnig gan eich canolfan a gweld y defnyddwyr (staff) sy'n gysylltiedig â phob cymhwyster.


Cysylltiadau'r Ganolfan: Ar y sgrin hon gallwch reoli manylion prif gysylltiadau eich canolfan. Gall CBAC weld y cysylltiadau hyn fel 'darllen yn unig'. Os oes angen i chi ddiweddaru'r manylion hyn, cysylltwch â: centres@wjec.co.uk

Defnydd: Mae'r sgrin hon i'w gweld gan uwch ddefnyddwyr ac uwch reolwyr ac yn rhoi trosolwg o bob bwciad sydd wedi'i wneud drwy'r system a'r ffioedd cysylltiedig sydd wedi cronni.

# 3. Gosod defnyddwyr eraill a chynnal proffiliau defnyddwyr

## Gosod defnyddiwr/defnyddwyr


Uwch ddefnyddwyr sy'n gyfrifol am osod defnyddwyr eraill a rhoi hawliau mynediad iddynt o fewn Cyswllt. Gall uwch ddefnyddwyr ychwanegu a chadw defnyddwyr drwy fynd i 'Defnyddwyr' a dewis 'Ychwanegu Defnyddiwr'. Gallant hefyd gadw neu newid manylion defnyddiwr drwy glicio ar gofnod y 'defnyddiwr'.




**D.S. Cyswllt eich Swyddog Arholiadau fydd Uwch Ddefnyddiwr cyntaf eich canolfan. Bydd y system yn anfon cyfrinair at yr unigolyn a bydd yn gallu mewngofnodi a chreu cyfrifon defnyddwyr eraill ar gyfer y ganolfan. Bydd yn gallu ychwanegu mwy o Ddefnyddwyr ac Uwch Ddefnyddwyr ar gyfer y ganolfan.**

Gall uwch ddefnyddwyr wneud y canlynol:

1. Dileu mynediad Defnyddiwr presennol drwy ei nodi fel 'ddim yn weithredol'.
2. Gosod/newid 'Math o Ddefnyddiwr' ar gyfer defnyddiwr (gweler isod).
3. Aseinio rolau sy'n briodol i'r defnyddiwr er mwyn cael mynediad at ffurflenni perthnasol; derbyn hysbysiadau e-bost; a gweithredu 'logiau' perthnasol yn y maes Llywodraethu Corfforaethol.



## Rolau defnyddiwr

| Rôl | Disgrifydd |
|---|---|
| Uwch Ddefnyddiwr | Â mynediad llawn at y system ac yn gallu creu, golygu, gweld, chwilio am a dileu pob ffurflen a'r holl wybodaeth. Gall Uwch Ddefnyddwyr ychwanegu defnyddwyr ac mae ganddynt yr ymarferoldeb i dderbyn pob math o hysbysiad sy'n berthnasol i'r ganolfan. Gall Uwch Ddefnyddwyr lwytho dogfennau i fyny i'r llyfrgell, ychwanegu safleoedd asesu ac ychwanegu aelodau o staff. |
| Defnyddiwr Cyffredinol | Â mynediad cyfyngedig at y system ac yn gallu creu, golygu, gweld, chwilio am a dileu pob ffurflen a'r holl wybodaeth. Bydd defnyddwyr cyffredinol yn derbyn hysbysiadau sy'n berthnasol iddyn nhw. Gall y math hwn o ddefnyddiwr lwytho dogfennau i fyny i'r llyfrgell ond ni all ychwanegu safleoedd neu aelodau o staff. |